



Diogelwch Tân a Choronafeirws: eich rhestr wirio tra bydd cyfyngiadau symud yn weithredol

Oherwydd y cyngor iechyd cyhoeddus i aros gartref yn ystod pandemig y Coronafeirws bydd y rhan fwyaf ohonom yn treulio mwy o amser yn y cartref dros y misoedd nesaf.

Os ydych chi am wneud yn siŵr bod eich cartref mor ddiogel â phosibl rhag tân, ewch drwy'r pwyntiau isod wrth edrych o gwmpas eich cartref.

Ticiwch unrhyw eitemau y dylech chi eu hystyried neu eu cwblhau. Gallwch lawr lwytho'r rhestr ar y diwedd i'ch atgoffa.

1. Ysmygu a fêpio

Oes ysmygwyr yn byw yn eich cartref chi? Neu os oes ymwelwyr hanfodol yn dod i'ch cartref, megis gofalwyr - ydyn nhw'n ysmygu? Pan fydd pobl wedi eu cyfyngu yn y cartref, mae'n bosib y byddant yn ysmygu'n amlach.

Os hoffech help neu gyngor ar roi'r gorau iddi, ffoniwch linell gymorth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Cymru 0800 085 2219.

Pethau i'w gwirio:

- Cadwch lygaid am arwyddion o danau a fu bron a digwydd - marciau llosg ar loriau, carpedi neu ddillad gwely
- Gwnewch yn siŵr bod matsis neu danwyr ymhell o gyrraedd plant
- Gwnewch yn siŵr bod e-hylifau ymhell o gyrraedd plant ac anifeiliaid anwes

Pethau i'w gwneud:

- Ysmygwch yn yr ardd os oes gennyh chi ardd
- Gwagiwch flychau llwch yn ofalus a pheidiwch byth â'u gwagio i fin sbwriel rhag ofn i'r bin fynd ar dân
- Cadwch flwch llwch ymhob ystafell yr ydych chi'n ysmygu ynddi
- Os ydych chi'n ysmygu ar falconi diffoddwch eich sigarêts yn ddiogel. Fe all sigarét sydd yn cael ei thafu oddi ar falconi chwythu i falconi islaw ac achosi tân

Pethau y gallwch eu prynu:

- Prynwch flychau llwch dwfn a thrwm sydd yn llai tebygol o droi drosodd
- Prynwch e-sigarêts o siopau dibynadwy

2. Coginio

Gan fod bwytaï a thafarndai ar gau, byddwch yn siŵr o fod yn coginio mwy yn y cartref. A chan fod yr ysgolion ar gau, mae'n bosib y bydd mwy o bethau'n mynd â'ch sylw hefyd.

Ewch i'ch cegin ac edrychwch o'ch cwmpas. Oes yna unrhyw beth ger y popty a all fynd ar dân?

Pethau i'w gwirio:

- Gwiriwch rhag marciau llosg ar lieiniau sychu llestri neu wynebau gweithio yn y gegin
- Peidiwch â rhoi tostwyr o dan gypyrddau nac yn agos at unrhyw beth a all fynd ar dân
- Gwnewch yn siŵr bod eich popty, hob, lwfer popty a gridyll yn lân ac mewn cyflwr gweithredol da
- Os oes gennych chi farbeciw, gwnewch yn siŵr ei fod yn aros allan, ei fod ar lawr gwastad a'i fod yn cael ei gadw'n ddigon pell oddi wrth unrhyw beth a all fynd ar dân

Pethau i'w gwneud:

- Symudwch unrhyw beth a all syrthio ar eich popty a mynd ar dân
- Os oes raid i chi adael y gegin, diffoddwch yr hob a'r gridyll yn gyntaf
- Glanhewch eich popty, lwfer popty a gridyll rhag sain
- Cliriwch friwsion o'ch tostiwr rhag ofn iddynt fynd ar dân
- Peidiwch â chael eich temtio i ddefnyddio barbeciw ar falconi

Pethau y gallwch eu prynu:

- Prynwch larwm gwres a'i brofi'n fisol - mae modd archebu'r rhain ar-lein
- Prynwch larwm CO ar gyfer eich cegin os oes gennych chi bopty nwy neu danwydd solet neu fwyler yn yr ystafell

3. Canhwyllau, aroglarthau a fflamau noeth

Mae'n bosib y byddwch am wneud eich cartref yn lle mwy clyd gyda chanhwyllau ac aroglarthau gan eich bod yn treulio mwy o amser yno, ond mae'r rhain yn gallu achosi tân.

Ewch o amgylch eich cartref i ddod o hyd i ganhwyllau, aroglarthau neu fflamau agored.

Pethau i'w gwirio:

- Gwnewch yn siŵr bod canhwyllau, aroglarthau a theclynnau llosgi olew yn cael eu dal mewn dalwyr cadarn a all wrthsefyll gwres a'u bod yn cael eu rhoi ar arwynebedd gwastad

- Gwnewch yn siŵr bod yr eitemau hyn ymhell o gyrraedd plant ac anifeiliaid anwes
- Gwiriwch fod yr eitemau hyn yn cael eu cadw ymhell o ddefnyddiau a all fynd ar dân megis lenni, dodrefn meddal neu ddillad
- Mae canhwyllau yn llosgi fflamau noeth - cadwch ganhwyllau yn ddigon pell oddi wrth bobl sydd yn defnyddio elïau lliniarol, gan eu bod yn fflamadwy

Pethau i'w gwneud:

- Defnyddiwch ganhwyllau 'di-fflam' (neu ganhwyllau batri neu LED)
- Symudwch aroglarthau a chanhwyllau oddi wrth unrhyw beth a all fynd ar dân
- Gosodwch ganhwyllau, aroglarthau a theclynnau llosgi olew mewn dalwyr a all wrthsefyll gwres a'u rhoi ar arwynebedd cadarn
- Symudwch ganhwyllau ymhell o gyrraedd plant ac anifeiliaid anwes

Pethau y gallwch eu prynu:

- Canhwyllau di-fflam LED
- Dalwyr canhwyllau a all wrthsefyll gwres

4. Gwresogi

Os ydych chi'n gwresogi'ch cartref am gyfnod hirach nag arfer, mae'n bosib y byddwch yn poeni am eich biliau gwres.

Os felly mae cyngor ar gael yn GOV.UK Ceisiwch beidio â gwresogi'ch cartref mewn ffordd anniogel.

Pethau i'w gwirio:

- Gwnewch yn siŵr bod gwresogyddion cludadwy ymhell o ddodrefn a dillad gwely neu lenni
- Gwnewch yn siŵr bod gwresogyddion cludadwy o leiaf fetr oddi wrth bobl

Pethau i'w gwneud:

- Symudwch wresogyddion cludadwy ymhell o unrhyw beth a all fynd ar dân
- Symudwch wresogyddion cludadwy ymhell o unrhyw un sydd yn yr ystafell
- Symudwch unrhyw ddillad sydd yn sychu ar wresogyddion cludadwy

Pethau y gallwch eu prynu:

- Prynwch larwm carbon monocsid ar gyfer pob ystafell gyda gwresogydd tanwydd solet, nwy neu baraffin
-

5. Lleuedd tân, tanau agored a stofiau coed

Mae tanau agored yn gwresogi'r cartref ond mae risgiau tân ynghlwm â hwy hyd yn oed pan na chânt eu defnyddio.

Pethau i'w gwirio:

- Gwnewch yn siŵr nad oes eitemau fflamadwy yn ymyl eich lle tân neu stôf goed
- Gwnewch yn siŵr bod eich simnai neu ffliw yn lân ac mewn cyflwr da
- Gwnewch yn siŵr bod coed wedi eu stori ymhell o losgwyr tanwydd solet megis eich lle tân

Pethau i'w gwneud:

- Peidiwch â thanio tân yn eich lle tân os nad ydych wedi glanhau'ch simnai a'ch ffliw (unwaith y flwyddyn, neu ddwywaith y flwyddyn os ydych chi'n llosgi coed)
- Symudwch ddillad sydd yn sychu wrth eich lle tân

Pethau i'w prynu:

- Prynwch gard tân i amddiffyn rhag gwreichion a cholsion poeth
- Larwm carbon monocsid (ar gyfer pob ystafell gyda chyfarpar nwy, llosgwr tanwydd neu wresogydd paraffin)

6. Trydan

Gyda mwy o bobl yn gweithio gartref, a phlant gartref yn defnyddio cyfrifiaduron llechen a chonsolau gemau am gyfnodau hirach, mae'n bosib y byddwch yn cael trafferth dod o hyd i soced neu wefrwr sbâr i'w ddefnyddio.

Archwiliwch yr holl socedi, gwefrwyr a gwifrau yn eich cartref yn iawn, ac ewch i'n tudalen [Gofalu am Offer Trydanol](#).

Pethau i'w gwirio:

- Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw socedi trydanol wedi eu gorlwytho yn eich cartref
- Gwnewch yn siŵr bod eich nwyddau gwyn (megis peiriant golchi llestri neu beiriant sychu dillad) wedi eu cofrestru ac nad ydynt wedi cael eu galw'n ôl
- Gwnewch yn siŵr bod marc diogelwch Prydeinig neu Ewropeaidd ar eich cyfarpar
- Gwnewch yn siŵr bod eich offer trydanol yn lân ac mewn cyflwr gweithredol da
- Gwnewch yn siŵr nad oes gwifrau rhydd neu beryglus yn eich cartref (cadwch lygaid am farciau llosg, plygiau poeth, ffiwsys sydd yn chwythu neu dorwyr cylched sydd yn tripio am ddim rheswm amlwg)

Pethau i'w gwneud:

- Tafwch unrhyw wefrwyr na ddaeth gyda'ch dyfais neu wefrwyr nad ydynt yn rhai dilys
- Gwagiwch y fflwff yn eich peiriant sychu dillad yn unol â chyfarwyddiau'r gwneuthurwr

Pethau i'w prynu:

- Gwefrwr newydd dilys
 - Addaswyr rhes gyda ffiws - sef ceblau estyn gyda socedi mewn rhes ac nid mewn ciwb
-

7. Larymau

Mae'n well atal tân rhag digwydd yn y lle cyntaf, a thrwy osod larymau mwg cewch rybudd cynnar o dân a fydd yn rhoi cyfle i chi ddianc.

Mae hyn yn bwysicach fyth os ydych chi'n teimlo'n sâl - pan fyddwch yn llai abl i ymateb neu ddianc o dân.

Pethau i'w gwirio:

- Gwnewch yn siwr bod gennych chi larymau mwg gweithredol

Pethau i'w gwneud:

- Profwch eich larymau mwg nawr
- Gwnewch nodyn ar eich calendr i brofi'ch larymau mwg yn rheolaidd
- Gofynnwch i'ch darparwr teleofal (os oes gennych chi un) gysylltu'ch system teleofal â'ch larymau mwg

Pethau i'w prynu:

- Larymau mwg ychwanegol i'w gosod mewn ystafelloedd eraill
 - Larwm gwres ar gyfer y gegin - bydd yn larwm yn seinio pan fydd yn synhwyro gwres, ond nid os byddwch yn llosgi tost
-

8. Llwybrau Dianc

Maen bosib bod gennych chi fwy o fwydydd, papur tŷ bach, clytiau ac ati nag arfer yn eich cartref ar hyn o bryd, ac mae'n bosib eu bod yn blocio'ch llwybr dianc.

Meddyliwch sut y byddech chi'n dianc o'ch cartref mewn achos o dân. Ystyriwch eich llwybr dianc ynghanol y nos, a pha mor wahanol fyddai hynny os ydi pawb mewn gwahanol rannau o'r cartref.

Pethau i'w gwirio:

- Gwnewch yn siŵr bod pawb yn eich cartref yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng
- Gwnewch yn siŵr bod pawb yn gwybod ble mae allweddi'n cael eu cadw dros nos
- Gwnewch yn siŵr bod modd agor y ffenestri ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf
- Gwnewch yn siŵr bod pob llwybr dianc yn eich cartref yn glir o unrhyw beth all eich arafu neu eich atal rhag dianc

Pethau i'w gwneud:

- Cadwch eich llwybrau dianc yn glir o rwystrau
 - Lluniwch gynllun dianc a'i ymarfer gyda phawb yn y cartref
-

9. Gwiriadau cyn mynd i'r gwely

Os oes rywun yn eich cartref yn hunanynysu a bellach yn cysgu mewn ystafell wahanol, gwnewch yn siŵr eich bod wedi addasu'ch arferion gyda'r nos yn briodol.

Mae nifer o danau yn cychwyn gyda'r nos, pan mae'r rhan fwyaf o bobl yn cysgu. Fe allwch leihau'r risg trwy fynd i'r arfer o wirio'ch cartref cyn mynd i'r gwely.

Pethau i'w gwirio:

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi diffodd eich eitemau trydanol cyn mynd i'r gwely, oni bai eu bod wedi cael eu dylunio i gael eu gadael ymlaen.
- Gwnewch yn siŵr nad ydi'ch peiriant golchi, peiriant sychu dillad na'ch peiriant golchi llestri wedi cael eu gadael ymlaen dros nos.

Pethau i'w gwneud:

- Cadwch allweddi drysau allanol mewn lle cyfleus
- Caewch bob drws yn eich cartref cyn mynd i'r gwely